

DEDDF CAFFAEL TIR 1981

HYSBYSIAD O FWRIAD I BRYNU YN ORFODOL DIR SY'N FFURFIO RHAN O GOMIN A HAWLIAU AR DIR SY'N FFURFIO RHAN O GOMIN, TIR A ADNABYDDIR FEL RHAN O FLAENDRAETHAU AFON EBWY AC AFON WYSG (RHAN O UNED CL1 YN Y GOFRESTR) YN NINAS CASNEWYDD

GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (TRAFFORDD YR M4 (CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR) I FAN I'R GORLLEWIN O GYFFORDD 29 (CAS-BACH) A FFYRDD CYSYLLTU) A THRAFFORDD YR M48 (FFORDD GYSYLLTU CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR)) A CHEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR I GAS-BACH)) 201-

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi'r gorchymyn prynu gorfodol drafft uchod a fydd, os y'i gwneir, yn awdurdodi prynu tir a chaffael hawliau ar dir sy'n ffurfio rhan o gomin, fel y diffinnir "*common*" yn adran 19 o Ddeddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981") a pharagraff 6 o Atodlen 3 i Ddeddf 1981. Disgrifir yr ardaloedd o dir comin sydd i'w prynu yn yr Atodlen Gyntaf ("tir yr Atodlen Gyntaf") ac maent wedi eu lliwio'n binc ar y plan y cyfeirir ato ym mharagraff 5 isod. Disgrifir yr ardaloedd o dir comin y mae hawliau arnynt i'w caffael yn yr Ail Atodlen ac maent wedi eu lliwio'n las ar y plan hwnnw. Disgrifir yr ardaloedd o dir sydd i'w rhoi yn gyfnewid am dir yr Atodlen Gyntaf yn y Drydedd Atodlen ac maent wedi eu lliwio'n wyrdd ar y plan.

2. Mae adran 19 o Ddeddf 1981 a pharagraff 6 o Atodlen 3 iddi yn cynnwys darpariaethau i'r perwyl y bydd y Gorchymyn yn ddarostyngedig i weithdrefn seneddol arbennig i'r graddau y mae'n awdurdodi prynu tir neu gaffael hawliau ar dir sy'n ffurfio rhan o gomin oni bai yr ardystia'r Ysgrifennydd Gwladol ei fod wedi ei fodloni

(a) o ran prynu tir sy'n ffurfio rhan o gomin

bod tir arall wedi cael ei roi neu y bydd tir arall yn cael ei roi yn gyfnewid am y tir hwnnw, nad yw ei arwynebedd yn llai ac sydd yr un mor fanteisiol i'r personau, os oes rhai, a chanddynt hawliau comin neu hawliau eraill, ac i'r cyhoedd, a bod y tir a roddir yn gyfnewid wedi ei freinio yn y personau yr oedd y tir a brynwyd wedi ei freinio ynddynt, neu y bydd yn cael ei freinio ynddynt, a'i fod yn ddarostyngedig i'r cyfryw hawliau, ymddiriedolaethau a nodweddion a oedd yn gysylltiedig â'r tir a brynwyd

a

(b) o ran caffael hawl ar dir sy'n ffurfio rhan o gomin

na fydd y tir, pan fydd yn cynnal yr hawl honno, yn llai manteisiol i'r personau hynny y mae'r tir wedi ei freinio ynddynt a phersonau eraill, os oes rhai, a chanddynt hawliau comin neu hawliau eraill, ac i'r cyhoedd, nag yr oedd ynghynt

3. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 19 o Ddeddf 1981, a pharagraff 6 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672) ac fe'u trosglwyddwyd wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn rhinwedd paragraff 33(4) o'r Atodlen honno, mae unrhyw offeryn a wneir wrth arfer y swyddogaethau hynny yn ddarostyngedig i weithdrefn

arbennig y Cynulliad fel a bennir gan Reol Sefydlog 28 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni â'r materion hynny a nodir yn adran 19(1) o Ddeddf 1981 a pharagraff 6(1) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno, ac yn ardystio'n unol â hynny.

4. Pan fo Gweinidogion Cymru yn bwriadu rhoi tystysgrif o dan naill ai adran 19(1) o Ddeddf 1981 neu baragraff 6(1) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod caffael i roi hysbysiad cyhoeddus o'r bwriad i roi tystysgrif cyn penderfynu, er mwyn rhoi cyfle i'r holl bersonau sydd â buddiant wneud sylwadau a gwrthwynebiadau. Mae'r awdurdod caffael drwy hyn yn rhoi'r hysbysiad hwnnw. Dylai unrhyw sylwadau a gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r bwriad hwn gael eu gwneud yn ysgrifenedig a'u cyfeirio at Yr Arolygiaeth Gynllunio, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu eu hanfon drwy e-bost i wales@pins.gsi.gov.uk cyn 4 Mai 2016 gan ddyfynnu'r cyfeirnod 516173.

5. Bydd plan sy'n dangos yr ardaloedd o dir comin sydd i'w prynu, yr ardaloedd o dir comin y mae hawliau arnynt i'w caffael a'r ardaloedd o dir sydd i'w rhoi yn gyfnewid ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru a gellir gweld y plan ar bob adeg resymol yn y lleoliadau a ganlyn:-

- Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NQ
- Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Radur, Brynbuga, Sir Fynwy. NP15 1GA
- Cyngor Sir Fynwy, Tŷ Arloesi, Parc Busnes Wales1, Magwyr, Sir Fynwy. NP26 3DG
- Cyngor Dinas Casnewydd, y Ganolfan Ddinesig, Heol Godfrey, Casnewydd. NP20 4UR
- Llyfrgell Ganolog Casnewydd, Sgwâr John Frost, Casnewydd. NP20 1PA

6. Bydd Gweinidogion Cymru yn cynnal ymchwiliad cyhoeddus lleol i'r achos pan fo'n ymddangos iddynt ei bod yn hwylus i wneud hynny.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN GYNTAF
Y TIR COMIN SYDD I'W BRYNU

7/3	1057 o fetrau sgwâr o ran o wely a thorlannau'r Afon Ebwy a Thir Comin CL1 i'r de o Safle Tirlenwi Casnewydd ac i'r de-orllewin o gyffordd y Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol a Heol Alexandra. Rhifau Cae M034, M035
7/3d	12 metr sgwâr o ran o brysgdir a Thir Comin CL1 i'r de o Safle Tirlenwi Casnewydd ac i'r de-orllewin o gyffordd Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 a Heol Alexandra. Rhifau Cae M034
7/3e	20 metr sgwâr o ran o brysgdir a Thir Comin CL1 i'r de o Safle Tirlenwi Casnewydd ac i'r de-orllewin o gyffordd Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 a Heol Alexandra. Rhifau Cae M034, M035
7/3f	28 o fetrau sgwâr o ran o brysgdir a Thir Comin CL1 i'r de o Safle Tirlenwi Casnewydd ac i'r de-orllewin o gyffordd Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 a Heol Alexandra. Rhifau Cae M034, M035
7/3g	25 o fetrau sgwâr o ran o brysgdir a Thir Comin CL1 i'r de o Safle Tirlenwi Casnewydd ac i'r de-orllewin o gyffordd Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 a Heol Alexandra. Rhifau Cae M034, M035
7/3h	200 metr sgwâr o ran o wely a thorlan yr Afon Ebwy a Thir Comin CL1 i'r de o Safle Tirlenwi Casnewydd ac i'r de-orllewin o gyffordd Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 a Heol Alexandra. Rhifau Cae M034, M035

YR AIL ATODLEN
Y TIR COMIN Y MAE HAWLIAU ARNO I'W CAFFAEL

7/2p	Yr hawl i fynd ar 80 metr sgwâr o ran o wely a thorlan yr Afon Ebwy, Tir Comin CL1, i'r de o Safle Tirlenwi Casnewydd ac i'r de-orllewin o gyffordd Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 a Heol Alexandra at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw strwythur pont. Rhifau Cae M034
7/3b	Yr hawl i fynd ar 1640 o fetrau sgwâr o ran o wely a thorlan yr Afon Ebwy, Tir Comin CL1, prysgdir a thrac i'r de o Safle Tirlenwi Casnewydd ac i'r de-orllewin o gyffordd Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 a Heol Alexandra at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw strwythur pont. Rhifau Cae M034, M035
7/3c	Yr hawl i fynd ar 1177 o fetrau sgwâr o ran o wely a thorlan yr Afon Ebwy, Tir Comin CL1, prysgdir a thrac i'r de o Safle Tirlenwi Casnewydd ac i'r de-orllewin o gyffordd Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 a Heol Alexandra at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw strwythur pont. Rhifau Cae M034, M035
7/3df	Yr hawl i fynd ar 213 o fetrau sgwâr o ran o dorlan yr Afon Wysg, glanfeydd, SoDdGA'r Afon Wysg (Wysg Isaf) a Thir Comin CL1 i'r gogledd-ddwyrain o Safle Tirlenwi Casnewydd ac i'r de-ddwyrain o gyffordd Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 a Heol Alexandra at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw strwythur pont. Rhifau Cae Q039
8/2	Yr hawl i fynd ar 2603 o fetrau sgwâr o ran o wely a thorlan yr Afon Wysg, Tir Comin (CL1) a SoDdGA'r Afon Wysg (Wysg Isaf) i'r dwyrain o Ddociau Casnewydd ac i'r de o Ystad Ddiwydiannol Stephenson at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw strwythur pont. Rhifau Cae Q039

**Y DRYDEDD ATODLEN
Y TIR SYDD I'W ROI YN GYFNEWID**

7/2a	1078 o fetrau sgwâr o ran o'r dorlan a Safle Tirlenwi Casnewydd i'r de-orllewin o gyffordd Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 a Heol Alexandra ac sy'n cyffinio'r Afon Ebwy. Rhifau Cae N033, N034
7/2b	4398 o fetrau sgwâr o ran o'r dorlan a Safle Tirlenwi Casnewydd i'r de-orllewin o gyffordd Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 a Heol Alexandra ac sy'n cyffinio'r Afon Ebwy. Rhifau Cae M034, N034
7/2j	1166 o fetrau sgwâr o ran o'r dorlan a Safle Tirlenwi Casnewydd i'r de-orllewin o gyffordd Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 a Heol Alexandra ac sy'n cyffinio'r Afon Ebwy. Rhifau Cae M034
7/2m	248 o fetrau sgwâr o ran o wely a thorlan yr Afon Ebwy i'r de o Safle Tirlenwi Casnewydd ac i'r de-orllewin o gyffordd Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 a Heol Alexandra (Caffaelwyd i'w Gyfnewid â hawl S250) Rhifau Cae M034